Sefydlwyd ym 1991

Rhif Elusen Gofrestredig: 1066262

# Y Gofalydd

Rhifyn 107 Gaeaf 2023-24

bywyd LIFE
GWASANAETH CYNNAL GOFALWYR
CARERS OUTREACH SERVICE

## Mae Amrywiaeth yn ffaith, mae Cynnwys yn weithred



**Annwyl Ofalydd**
**Hoffai Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr glywed gennych Chi!**

Rydyn ni'n deall bod pob rôl ofalu'n wahanol ac rydyn ni eisiau gwybod sut medrwn ni wella eich profiad gofalu chi.
Trowch y dudalen am ragor o fanylion.

☎ 01248 370 797 ✉ help@carersoutreach.org.uk www.carersoutreach.org.uk

Give as you Live™

CARERS TRUST WALES

Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Angharad Edwards

# Newyddion diweddaraf Cynnal Gofalwyr

£ **Croeso i rifyn y Gaeaf.** £ £

## Grantiau

Os ydych chi'n newydd i'n gwasanaeth, efallai na wyddoch chi fod gennym ni ychydig o gyllid mewnol i helpu gofalwyr. Mae **Cronfa Cymorth Gofalwyr Cymru** yno i helpu gofalwyr sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan yr argyfwng costau byw ac sy'n profi anawsterau ariannol. Mae'r gronfa hon yn agored i unrhyw ofalydd sy'n profi caledi, hyd yn oed os ydynt yn gyflogedig.

Mae'n bwysig nodi nad hawl mo hwn; yn hytrach, cronfa ddisgresiwn yw hi a fydd yn cael ei dyfarnu i ofalwyr ar ôl i'r panel grantiau gynnal asesiad o anghenion.

**Cronfeydd Lles Gofalwyr**
Mae gofalwyr Gwynedd a rhiant-ofalwyr Ynys Môn yn medru cysylltu â ni i ofyn am daliad tuag at eitem neu arian tuag at seibiant a fyddai'n gwella eu lles nhw neu eu teuluoedd.

**Brêc Bach**
Cyllidir Brêc Bach i ofalwyr yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn gan Lywodraeth Cymru i ddarparu seibiannau byr ar gyfer gofalwyr. Medr y seibiannau fod am ddiwrnod neu dros nos a medrwn ni gyllido teithiau i'r sinema, lle trin dwylo, sbas, digwyddiadau cymdeithasol – beth bynnag a fyddai'n rhoi seibiant ystyrlon i chi fel gofalydd.

## Taliadau

Cyhoeddodd y Llywodraeth y taliadau canlynol i gynorthwyo pobl ym mlwyddyn ariannol 2023-24.

Taliadau o hyd at £900 i aelwydydd ar **fudd-daliadau cymwys sy'n dibynnu ar brawf modd.** Cafodd y rhain eu gwneud mewn tri rhandaliad i'r rheini a oedd yn derbyn budd-daliadau cymwys sy'n dibynnu ar braf modd o fewn y cyfnodau cymwys.

**£301 yn cael ei dalu yn ystod gwanwyn 2023**
**£300 yn cael ei dalu yn ystod hydref 2023**
**£299 yn cael ei dalu yn ystod gwanwyn 2024**

Mae'r Taliad Costau Byw i Bobl Anabl yn daliad o £150 i unigolion sy'n derbyn **budd-daliadau anabledd, gan gynnwys y Lwfans Gweini, y Lwfans Byw i'r Anabl a'r Taliad Annibyniaeth Personol** ar y gyfradd gymhwyso.

Bydd y Taliad Costau Byw i Bensiynwyr o hyd at £300 yn cael ei dalu fel ychwanegiad i'r Taliadau Tanwydd Gaeaf ar gyfer gaeaf 2023 i 2024.

Am ragor o wybodaeth, ewch i Taliadau Costau Byw 2023 i 2024 - GOV.UK (www.gov.uk)

**Neu ffoniwch ein swyddfeydd a siarad ag un o'n Swyddogion Cymorth Gofalwyr.**

£ £ £

## Cysylltwch â'n swyddfeydd am ragor o fanylion

# Pryderon gofalwyr

Ym mudiad Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw hi fod gofalwyr di-dâl fel chi yn cael eich gwerthfawrogi a'ch cefnogi. Y cam cyntaf hanfodol, mae'n siŵr, yw gwrando arnoch chi a chael dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio i chi. Ein cenhadaeth yw sicrhau bod eich pryderon gofalu yn cael eu clywed gan benderfynwyr a, lle'n bosibl, yn cael sylw.

Yn ôl yn 2016, ar ôl ymgysylltu â gofalwyr, aethom ati i newid y ffordd yr oedd seibiant yn cael ei gynnig i'n gofalwyr di-dâl. O ganlyniad, bu modd i ni gynnig taliadau untro i roi seibiant hyblyg i ofalwyr di-dâl unigol ar amser a lle a oedd yn addas iddyn nhw. Erbyn hyn, mae miloedd o ofalwyr yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy wedi cael budd o'r ddarpariaeth hon.

A fyddech gystal â threulio rhai munudau yn ystyried y cwestiynau yn y golofn nesaf. Bydd eich atebion yn ein helpu ni i barhau i ymgyrchu dros hawliau gofalwyr, yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau nhw.

Medrwch chi anfon eich atebion atom drwy ysgrifennu atom ni yn:
Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, Uned G1, Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG

Neu drwy anfon e-bost at
**help@carersoutreach.org.uk**

Neu drwy ffonio
**01248 370797**

## Gwasanaethau presennol

1. **Beth sy'n gweithio i chi fel gofalydd?** A ydych chi'n derbyn gwasanaeth sy'n gweithio'n dda i chi? Mae dweud wrthym ni am arferion da yn ein helpu ni i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn medru parhau.
2. **Beth sydd ddim yn gweithio i chi fel gofalydd?** Dywedwch wrthym ni pam nad yw rhai gwasanaethau yn gweithio i chi fel y medrwn ni adrodd hyn yn ôl i ddarparwyr gwasanaethau.
3. **Beth sy'n bwysig i chi fel gofalydd?** Dywedwch wrthym ni beth sy'n bwysig i chi yn eich bywyd bob dydd, i chi fel gofalydd ac i'r sawl rydych chi'n gofalu amdano.
4. **A yw eich anghenion fel gofalydd yn cael eu diwallu?** Beth sydd ar goll? Pa wasanaeth/cymorth sydd ddim yn cael ei ddarparu?

## Gwasanaethau gan Gynnal Gofalwyr yn y dyfodol

Mae Cynnal Gofalwyr yn cynnig clust i wrando, help i gael grantiau a hawliau, gan gynnwys cyllid mewnol i gael help gyda chostau byw, seibiannau byr, lles gofalwyr, grwpiau cymorth, sesiynau galw heibio, diwrnodau gwybodaeth, galwadau adolygu blynyddol ac yn cyfeirio ac atgyfeirio i asiantaethau eraill.

1. A oes gwasanaeth gwahanol yr hoffech chi i fudiad Cynnal Gofalwyr ei ddarparu yn y dyfodol?
2. Pa rai o'n gwasanaethau fyddech chi'n hoffi eu gweld yn parhau?

**Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed eich barn - Diolch!**

# Adborth da yw'r allwedd i wella

# Awgrymiadau bywyd

**Atwrneiaeth Arhosol**

Mae'n bwysig bod gan bobl rywun y medrant ymddiried ynddo i wneud penderfyniadau am eu hiechyd a'u harian os na fyddant yn medru gwneud y penderfyniadau hyn dros eu hunain mwyach. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, mewn partneriaeth â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, wedi datblygu canllaw hwylus i drefnu **Awtwrneiaeth Arhosol (LPA).**

Nod y canllaw yw helpu pobl i sylweddoli pa mor bwysig yw hi i gael LPA i reoli eu cyllid, eu hiechyd a'u lles. Medr rhoi'r trefniadau hyn ar waith helpu i roi tawelwch meddwl i bobl a chaniatáu iddynt barhau i gael rheolaeth dros y penderfyniadau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r canllaw hefyd yn darparu atebion i gwestiynau cyffredin ynghylch yr LPA.

I lawrlwytho copi, ewch i **https://comisiynyddph.cymru/adnodd/canllawiau-hwylus-ar-atwrneiaeth-arhosol/**

☎ **03442 640 670** to i ofyn am gopi papur o'r llyfryn.

**Dod yn benodai**

Fel penodai, mae gennych chi'r awdurdod i ymdrin â materion lles ar ran rhywun arall (fel arfer oherwydd ei analluedd meddyliol).

I ddod yn benodai, dylech wneud cais i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Bydd y rhif ffôn i alw yn amrywio, yn dibynnu ar ba fudd-daliadau mae'r cwsmer yn ei dderbyn. Er enghraifft, os yw'n derbyn y Lwfans Gweini, bydd angen i chi ffonio'r llinell gymorth Lwfans Gweini.

Mae'n bwysig nodi nad oes gan benodai rôl y tu hwnt i fudd-daliadau lles.

**Rhai rhifau ffôn defnyddiol**

| | |
|---|---|
| Lwfans Gweini | 0800 731 0122 |
| Lwfans Byw i'r Anabl | 0800 121 4600 |
| Y Gwasanaeth Pensiwn | 0800 731 0469 |
| Lwfans Gofalydd | 0800 731 0297 |
| Hawliau newydd PIP | 0800 917 2222 |
| Llinell gyffredinol PIP | 0800 121 4433 |

## Cadw mewn cysylltiad


**Dros y ffôn:**
**Bangor a Llangefni: 01248 370797**

**Bae Colwyn: 01492 533714**

**E-bost: help@carersoutreach.org.uk**

**www.carersoutreach.org.uk**

**Ymunwch â'n gweithgaeddau**

# Awgrymiadau bywyd

## Sgamiau – rhif newydd i'w alw

Os ydych chi'n credu eich bod yn cael eich targedu gan sgamwyr dros y ffôn, y cyngor yw **Stopio, rhoi'r ffôn i lawr a ffonio 159**.
Bydd hyn yn eich cysylltu chi'n uniongyrchol â'ch banc.

Mae 159 yn gweithio yn yr un modd ag 101 i'r heddlu neu 111 i'r GIG. Dyma'r rhif y medrwch chi ddibynnu arno i'ch cysylltu chi â'ch banc yn ddiogel ac yn saff, bob tro. Felly os ydych chi'n credu bod rhywun yn ceisio eich twyllo i roi arian neu fanylion personol iddo – stopiwch, rhowch y ffôn i lawr a ffoniwch 159 i siarad â'ch banc yn uniongyrchol.
**Am ragor o fanylion, chwiliwch am 'Sgamiau 159' ar Google**

## Rhestr flaenoriaeth Dŵr Cymru

Os oes gennych chi

- anawsterau gyda'ch golwg neu glyw
- heriau symudedd a fyddai'n ei gwneud hi'n anodd taro i'r siop i gael potel o ddŵr os nad oedd eich cyflenwad dŵr yn gweithio rhywbryd
- cyflwr meddygol sy'n golygu eich bod yn dibynnu'n fawr ar eich cyflenwad dŵr
- Neu os ydych chi'n rhiant â phlentyn ifanc gartref

Ewch i'r wefan isod i ymuno â'r rhestr flaenoriaeth.

**https://www.dwrcymru.com/en/help-advice/priority-services**

## Beth yw Credyd Pensiwn?

Arian ychwanegol i bobl dros oedran y Pensiwn Gwladol a'r rheini ar incymau isel i'w helpu gyda chostau byw.

Mae hefyd yn medru rhoi mynediad at amrediad o fudd-daliadau eraill fel help gyda chostau tai, y dreth gyngor, biliau gwresogi ac, i'r rheini sy'n 75 oed neu'n hŷn, trwydded deledu am ddim.

Os ydych chi'n credu y medrai fod gennych chi'r hawl i Gredyd Pensiwn, medrwch chi ofyn i'r asiantaethau canlynol am wiriad o'ch budd-daliadau.


**Tîm Hawliau Lles Conwy**
**☎ 01492 576605**

**Age Cymru Gwynedd a Môn**

## Cofiwch

Mae'n cymryd...
Un goeden i ddechrau coedwig
Un wên i ddechrau cyfeillgarwch
Un llaw i godi ysbryd
Un gair i fframio'r gôl
Un gannwyll i ddifa'r tywyllwch
Un chwerthiniad i drechu tristwch
Un cyffyrddiad i ddangos eich bod yn poeni.





Hyd y gwyddom, roedd yr wybodaeth a geir yn y cylchlythyr hwn yn gywir pan gafodd ei argraffu. Ni fedr Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr fod yn gyfrifol am unrhyw gamgymeriadau, esgeulustod nac ansawdd yr wybodaeth a ddarperir gan fudiadau eraill, ac ni fedrwn argymell unrhyw gynnyrch na gwasanaeth.

# Byw bywyd: Storïau gofalwyr

Rwy'n gofalu am fy dau riant sy'n oedrannus a bregus. Ynghyd â chyflyrau iechyd amrywiol, mae gan y ddau symudedd gwael ac mae Mam hefyd yn rhannol ddall ac yn drwm ei chlyw. Rwy'n credu bod profedigaeth yn y teulu flynyddoedd yn ôl wedi cael effaith ddofn ar y ddau ohonynt, gan achosi i'w hiechyd ddirywio'n sylweddol. Yn gynharach y flwyddyn hon, daeth pwynt lle y bu'n rhaid i mi wneud y penderfyniad anodd i roi'r gorau i'm cyflogaeth â thâl a dychwelyd i'r fferm deuluol i helpu i ofalu am fy rhieni a chadw'r fferm i fynd.

Mae'r ddau yn cael gofalwyr cartref sy'n dod i'w helpu gyda'u gofal personol ac i gynhesu eu prydau bwyd, ond fi sy'n gyfrifol am bopeth arall. Mae fy nhasgau bob dydd yn cynnwys golchi dillad, trefnu apwyntiadau iechyd, cadw golwg ar waith papur a gwneud y siopa. Efallai nad yw'n swnio'n llawer, ond mae'n medru bod yn anodd ar brydiau, yn enwedig gan fod fy Mam yn ffonio'n aml pan fyddaf yn y siopau yn mynnu fy mod yn dod adref. Rwy'n rhuthro yn ôl adref gan ofni'r gwaethaf dim ond i ganfod nad oedd unrhyw beth yn bod.

Cefais fy synnu cymaint o waith sy'n gysylltiedig â gofalu am aelodau teuluol.

Er enghraifft, pan fydd Dad yn mynd am ofal seibiant am wythnos, mae angen golchi, sychu a labelu ei ddillad; bwcio'r cyfleuster gofal a threfnu trafnidiaeth ar ei gyfer. Rwy'n gorfod cadw llygad ar y taliad i'w cartref gofal a sicrhau bod y gyfradd gywir yn cael ei chodi arnyn nhw, yn dibynnu ar eu pensiynau unigol ac ati.

Hefyd, oherwydd fy nghyfrifoldebau gofalu a galwadau'r fferm, ni fedraf fynd allan i unrhyw le a dweud y gwir, sy'n golygu fy mod yn teimlo'n eithaf unig. Mae wedi bod yn braf siarad â staff Cynnal Gofalwyr sydd wedi gwrando arnaf a rhoi gwybodaeth i mi am fudd-daliadau a hawliau.

Rwy'n teimlo nawr mod i'n deall pa mor galed yw hi i fod yn ofalydd di-dâl, waeth a ydych chi'n gofalu am oedolyn neu blentyn, mae'n bwysig sylweddoli nad ydych chi'n wynebu hyn ar eich pen eich hun. Rydyn ni'n fyddin dawel ond yn un gref!

~ Dylan, Gofalydd o Ynys Môn

**Yn anffodus, bu farw mam Dylan yn gynnar ym mis Hydref. Mae ein meddyliau gyda Dylan a'i deulu ar yr adeg drist hon.**

Os ydych chi'n rhiant sy'n poeni am sut mae eich plentyn yn teimlo am gael brawd neu chwaer ag anabledd corfforol neu anabledd dysgu, cofiwch hyn:

Nid yw hi/ef yn gweld diagnosis, ond mae hi/ef yn gweld:

Ffrind i chwerthin ag ef, myfyriwr i'w addysgu. Llaw i'w ddal, a brawd neu chwaer i'w (d) diogelu a'i (h)annog.

Partner dawns, ffrind i roi cwtsh iddo, cyfaill i ddarllen iddo a rhywun i'w garu.

Pe bai gweddill y byd yn medru eu gweld nhw drwy lygaid eu brodyr neu chwiorydd, byddai'n lle llawer mwy caredig a chydymdeimladol.
Mae fy mrawd i bedair blynedd yn iau na mi, ac ni fi erioed yn unrhyw beth ond 'normal' i fy ffrindiau a minnau.

Byddai rhai plant yn gofyn i mi pam ei fod yn gwneud synau twp neu pam roedd angen i mi ei helpu i groesi'r ffordd, ond nid oedd yn gwneud unrhyw wahaniaeth.

Mae fy mrawd yn 23 bellach a finnau'n 27 ac rwy'n dal i uniaethu â'r geiriau uchod, dim diagnosis yw ef i mi, ond brawd annwyl a ffrind gorau.

~ Jasmine, Gofalydd o Gonwy

## Archarwyr mewn dillad plaen yw gofalwyr